

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Bwriad y nodiadau canlynol yw darparu canllaw i athrawon a darparwyr addysgol i gyd-fynd â'r cyflwyniad a chynnwys syniadau pellach am ryngweithio disgyblion.

Tudalen 1

Mae yna bron i 5,000 o giperiaid yn gweithio ym Mhrydain Fawr heddiw.

Eu gwaith yw edrych ar ôl adar gêm a phob math o fywyd gwylt yn yr ardal sydd odditan eu goruchwyliaeth.

Mae eu cŵn, Spaniels a Labradors yn cael eu defnyddio i wthio adar gêm sydd yn cuddio yn y llwyni (y Spaniels fel arfer) ac i adfer adar (y Labradors fel arfer) sydd wedi cael ei saethu.

Tudalen 2

Mae'r prif ffeithiau ar y sgrin yn barod..

Mae'n bosibl y bydd rhaid egluro nad ydyw 'Coedwig Hela' nid yn unig yn goedlan ond yn ardal eang wedi ei neilltuo i hela, saethu a hebogyddiaeth.

Gwaith gwreiddiol cipar oedd edrych ar ôl y gêm (anifeiliaid a warchodir gan y gyfraith a'u herlid gan helwyr trwyddedig), a'u gwarchod oddiwrth anifeiliaid/adar ysglyfaethus a herwhelwyr.

Byddai'r tir feddianwyr yn cadw'r gêm er mwyn eu hela a chyflenwi bwyd.

Yn y pictiwr or 'hen gipar' eglurwch beth sydd yn hongian y tu ôl iddo. Y 'Linell Grog' - dull traddodiadol y cipar o hongian y pla yr oedd wedi ei ddal ar ffens i ddangos i'w gyflogwr ei fod yn gwneud ei ddyletswydd. Ni ddefnyddir y dull yma heddiw.

Tudalen 3

Pwyswch botwm chwith y lygoden i ddod a phob un faith i fyny.

Mae gwaith y cipar wedi bod ac y mae'n dal yn bwysig iawn cyn belled ac y mae dyfodol cefn gwlad Prydain yn berthynol.

Gwnewch bwynt o pa mor fychan yw rhan fwyaf o ardaloedd cadwraeth o dan reolaeth ymddiriedolaethau bywyd gwylt i gymharu ac ardaloedd mwy eang sydd yn cael eu rheoli gan giperiaid.

Eglurwch beth yw SSSI – Safle sydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – ardal pwysig i ddiogelu am bod amgylchiadau arbennig a rhywogaeth sydd yn bodoli yno.

Mae casgliadau mewn adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Helwriaeth wedi ei sefydlu ar ymchwiliad diweddar yn rhoi y farn nad yw " Gwarchod ddim am amddiffyn natur o ddwylo dynol, ond am reoli ein planhigion ac anifeiliaid er mwyn ein cynnal yn gorfforol ac yn ysbrydol." Y foeseg wreiddiol yw un o "gadwraeth trwy ddulliau doeth."

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 4

Mae 2 gipar ar y tudalen hon, wedi gwisgo mewn siwtiau gwydyn traddodiadol o frethyn gwlan a ddefnyddid ar ddyddiau saethu. Efallai bod angen egluro beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'llodrau', 'plus twos' a 'plus fours'. Datblygwyd y trowsusau cyn dyfodiad esgidiau 'Wellington' a phan fyddai pobl cefn gwlad yn gwisgo socasau lledr hyd at y penglin. Mae'r 'llodrau' yn fitio'n dyn o gwmpas y penglin, y'plus twos' yn hongian i lawr 2 fodfedd a 'plus fours' yn hongian i lawr 4 modfedd. Mae'r defnydd ychwanegol yn caniatáu mwy o blygiad yn y penglin.

Ar ddyddiau gwaith arferol rydych yn fwy tebygol o gwrdd â'r ciperiaid modern yn gwisgo gwisg Goretex sy'n atal dŵr a gwynt gyda 'fleeces' i gadw'n gynnes

Dyma'r chwe man y bydd y cynnwys yn ei gofleidio.

Y Cipar – 'y dyn yn y fan ar lle'; rheolwr dyddiol cylch eang o gynefinoedd – y cyntaf i sylwi ar unrhyw broblemau e.e. difrod, llygredd, tor-cyfraith ac yn y blaen.

Am ei fod yn bresennol yn ddyddiol, y mae yn y sefyllfa orau i sylwi ar gyfnewidiadau mewn rhifau pla/anifeiliaid ysglyfaethus ac ymateb cyn ir broblem waethygu.

Dyddiau saethu – ychydig iawn o saethu pob blwyddyn mewn unrhyw goedwig ac am y gweddill or flwyddyn yn cael ei gadw'n ddistaw a di-darf.

Tudalen 5

Mae'r sleidiau cynefin yn cyd-redeg a chanu'r adar ar dorriad y wawr. Mae caniadau'r adar yn parhau ar dudalenau 5, 6 a 7.

Nodweddiadol o gefn gwlad Prydain yw cymysgedd/tapestri o gaeau yn tyfu amrywiaeth o gnydau wedi ei gwahanu gan wrychoedd a chyda coedwigoedd o wahanol faint. Mae wedi ei greu gan ddynoliaeth ac ymhell o ardaloedd gwyllt naturiol gwreiddiol oedd mewn bodolaeth ar un adeg.

Mae hyn oherwydd i ddylanwad hanesyddol:-

- a) campau fel hela a saethu
- b) amaethyddiaeth
- c) coedwigaeth

Yng nghefn gwlad heddiw mae yna lefel uchel o gydweithrediad a chyfathrach rhwng y tri.

Gwrychoedd, coedwigoedd a rhai cnydau amaethyddol e.e. gwenith, ffâ ac yn arbennig cnydau gêm yn darparu cysgod a bwyd.

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 6

Dengys rhai or prif fathau o gynefin, hynny yw, coedwigoedd, dyffrynnoedd afonydd, pyllau a llynnoedd, rhosdir, ac yn y blaen. Mae pob cynefin yn ffafrïol i rywogaeth sydd yn mwynhau/angen/ ac yn ddibynnol ar y sefyllfa neilltuol ym mboob un.

Yn ogystal ac adar gêm efallai mai mewn coedwig fe ddarganfyddir e.e. wiwerod, moch daear, llwynogod, ceirw, adar ysglyfaethus fel tylluanod, boncath a chudyll gleision ac adar eraill fel y cropiedydd a chnocell y coed.

Yn yr afonydd byddai'n bosib darganfod – e.e. pysgod, (fel brithyll, eog, penhwyad) dyfrgŵn, minc, llygod y dŵr a hwyaid.

Yn y pyllau a llynnoedd byddai'n bosib darganfod – e.e. pysgod, amphibiaid (fel llyffantod a madfall) ac adar fel ieir dŵr, ieir y gors, gwyach a crëyr.

Ar y rhosdir byddai'n bosib darganfod – e.e. nadroedd, madfall cyffredin ac adar ysglyfaethus fel y tylluanod clustiog, hebogiaid, gweilch bach a hebogiaid yr hedydd ac adar sydd yn nythu ar y ddaear fel y gylfinir, y gornchwiglen ar grugiar.

Tudalen 7

Mae cnydau gêm/cadwraeth yn cael eu tyfu mewn darnau bychain gan y cipar gan eu bod yn darparu cysgod (gorchudd oddiwrth y tywydd ac allan o olwg anifeiliaid ac adar ysglyfaethus) a dewis eang o hâd amrywiol o faint yn addas i adar gêm a nifer o rywogaethau eraill.

e.e. Miled – ar y chwith yn y gwaelod – hadau bychain iawn

Haulflodyn – ar y dde yn y gwaelod – hadau mawr maethlon iawn.

Mae tyfiant cyfoethog yn ffynhonnell hanfodol o brodin ac yn sylfaen ir gadwyn fwyd sydd yn cynnal amryw fathau o bryfed ac yn enwedig eu cynrhon – mae rhain mor bwysig i oroesi cywion.

Tudalen 8

Mae ymchwil wedi dangos bod cnydau gêm yn fudd i lawer o adar Prydeinig ac maent hefyd yn neilltuol ddefnyddiol i adar fel cysgod ac am ffynhonnell fwyd yn ystod tywydd garw y gaeaf.

Mae rhifau ar y lluniau ar dudalennau 8 a 9 yn rhoi cyfle ir athrawon sylwi os yw'r disgyblion yn medru enwi rhai or adar yma.

1. Mwyalchen/Aderyn Du
2. Llwyd y Gwrych
3. Llinos ar ei nyth
4. Golfan y Mynydd
5. Bronfraith

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 9

1. Asgell Fraith/Ji-binc
2. Nico
3. Bras y Gors
4. Llinos Frongoch
5. Llinos Werdd
6. Bras yr Eithin/Penfelen

Tudalen 10

Dangosir y prif fathau o adar gêm, mae'r sŵn yn berthynol i'r ffasant yn unig:

1. Petrisen lwyd (brodorol)
2. Petrisen Ffrengig/Coesgoch
3. Grugiar (brodorol)
4. Ffasant – mae plu y ceiliog a'r iar ffasant yn wahanol – eglurwch pam fod hynny – mae plu y ceiliog yn fwy lliwgar er mwyn denu'r ieir ac mae gan yr ieir blu cuddliw fel y gallant eistedd yn ddiogel ar ei wyau am 24 diwrnod.

Tudalen 11

Yn ychwanegol i giperiaid mae nifer o wahanol bobl yn gweithio yng nghefn gwlad. Mae cynnal a chadw cefn gwlad yn ei gyflwr presenol yn golygu costau ariannol uchel, ac oherwydd hynny mae incwm yn angenrheidiol – mae saethu yn ffordd effeithiol o gael peth arian – llawer ohono yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach gynefinoedd a chadwraeth. Roedd y broses yn mynd ymlaen yng nghefn gwlad Prydain ymhell cyn "cadwraeth" ddod yn air poblogaidd. Nid yw'r gwaith yma yma yn costio dim i drethdalwyr Prydain Fawr. Tirfeddianwyr a phobl sydd yn ddiffuant am eu campau a chefn gwlad sydd yn bennaf gyfrifol am ariannu'r cyfan.

Tudalen 12

Mae gan anifeiliaid ysglyfaethus ddannedd, pigau ac ewinedd miniog. Maent yn dal a lladd anifeiliaid eraill ac yn eu bwyta.

Lluniau – enwir y llwynog ar carlwm

Anifeiliaid ysglyfaethus sydd ar frig y gadwyn fwyd,

e.e. **Llwynog – Cwningen – Moron**

Os ydych yn hyderus gyda'r syniad, eglurwch 'wefannau bwyd' ar dynameg sydd oddimewn iddynt. Ciperiaid sydd yn cadw'r anifeiliaid ysglyfaethus o dan reolaeth am eu bod yn peryglu niferoedd o adar gêm ac wrth wneud hynny maent yn sicrhau diogelwch i lawer o anifeiliaid eraill. Mae y broses yma yn grefftwaith a gall cipar da ei waith chware rhan bwysig – **Cadw'r Cydbwysedd.**

Cwestiwn: Beth all ddigwydd petai'r anifeiliaid ysglyfaethus yn mynd yn rhy niferus?

Ateb: Buasai nifer y rhywogaeth ysglyfaethus, sydd yn cynnwys gêm yn cael eu difa, a hynny ambell waith yn sylweddol.

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 13

Symudwch y llygoden tros y lluniau i gael clywed sŵn yr anifeiliaid/adar ysglyfaethus sydd yn arddangos arwyddlun.

Enwch y chwech anifail/aderyn ysglyfaethus yn y drefn sydd ar y sgrin – (mae pwysu ar fotwm chwith y llygoden yn dod ac enwau ir golwg ond yn yr un drefn ar lluniau) – trafodwch pwy fath o fwyd y buasai pob un or anifeiliaid/adar ysglyfaethus yn ei fwyta.

Mae llawer o anifeiliaid fel y minc, carlwm a llwynogod yn cymuno trwy arogl yn ogystal a thrwy sŵn.

Mae rheoli anifeiliaid ysglyfaethus yn gyfreithiol.

Tudalen 14

Gofynwch ir disgyblion enwi bwydydd a fwyteir gan y llwynog – siaradwch am llwynogod sydd weithiau yn lladd nifer fawr o ysglyfaeth – e.e. a) yr ieir i gyd yn eu cwt. b) maent yn lladd llawer o ysgyfarnogod ieuanc – mae Ymddiriedolaeth Elusengar y Ciperiaid yn amcanu bod dros 70 y cant o ysgyfarnogod ieuanc yn cael eu lladd gan llwynogod – dyna un or rhesymau bod poblogaeth yr ysgyfarnog o dan fygythiad mewn rhai ardaloedd. c) mae llwynogod yn lladd ŵyn holliach ar rai ucheldiroedd – ac oherwydd hynny yn eithriadol gostus i ffermwyr bryniau Cymru.

d) mae llwynogod yn lladd pob rhywogaeth o adar sydd yn nythu ar y ddaear ac maent hefyd yn bwyta eu wyau a'i cywion.

Tudalen 15

Trwy brofiad mae ciperiaid yn gwybod y ffordd orau a mwyaf effeithiol i'w ddefnyddio yn erbyn y gwahanol fathau o anifeiliaid ysglyfaethus.

Tudalen 16

Ar y chwith mae cipar yn gosod trap twnel; yn y canol fe ellwch weld y trap ffen wedi ei osod gyda'r gliced diogelwch ymlaen (mae trapiau fel hyn yn gweithio fel trapiau llygod bach):

Eglurwch pam fod brigau cryfion (eithrwyr) wedi eu rhoi yng ngheg y twnel – i ddileu rhywogaeth nad ydynt yn cael eu targedu.

Pam bod hyn mor bwysig? – am bod y trap yn lladd beth bynnag a ddelir.

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 17

Mae'r teclyn telesgobic ar y reiffel yn ei wneud yn llawer mwy cywir ac mae'r deudroed ar y ddaear yn gwneud y gwn yn fwy disysgog. Fe all rhan fwyaf o giperiaid daro cylch modfedd o gan medr o bellter.

Os yw'r gwn yn 'ddigon mawr' (h.y. o galibr addas); yna mae saethu anifail, yn arbennig anifail mor fawr a llwynog neu garw, yn cael ei gyflawni gyda 'lladdiad glân' – dyma'r ffordd orau i'w wneud. Maglau rhwydd redeg – y grefft yw gosod y fagl yn gywir. Mae'r fagl yn dal yr anifail sydd wedyn yn cael ei saethu. Mae rhwystrydd yn atal y fagl rhag tynhau.

Tudalen 18

Trap 'Larsen' a thrap 'Ladder' – dwy ffordd lwyddianus i ddal brain, piod a jac-y-do sydd yn gyfrifol am wneud llawer o ddifrod i wyau adar sydd yn nythu ac i gywion ar eu tyfiant.

Eglurwch sut mae trap 'Larsen' yn gweithredu, - 'Caedau Spring' gyda clicedi o hollt glwydi – defnyddir aderyn hudo o ardal arall (rhaid gofalu bod gan yr aderyn hudo gysgod, bwyd a dwr) ac ymosodir arno gan adar sydd yn preswyllo yn y fro. Mae'r aderyn ymosodol yn myned i mewn i'r trap trwy'r top ac yn achosi'r hollt glwydi i glicedu a chau y caead. Buasai 'Larsen' trap yn erfyn addysgiadol defnyddiol.

Trap lluosrif yw'r 'Ladder' a all ddal rifau niferus o bob math o adar fel brain, piod a jac-y-do. Mae'r adar yn mynd i mewn trwy dyllau yn yr ysgol ganolig i gyrraedd y bwyd ar ei waelod ond unwaith i mewn nid ydynt yn medru darganfod y ffordd i ddod oddiyno.

Mae'r ddau drap yn dal adar byw – os ydych yn dal adar o rywogaeth nad ydych yn eu targedu mae'r cyfle yno i'w gollwng yn rhydd.

Tudalen 19

Defnyddio gwenwyn – mae rheolau llym mewn bod - ond mae hi yn gyfreithlon i'w defnyddio – yn arferol fe'i defnyddid yn erbyn anifeiliaid gyda dau ddant blaen uchaf cryf (fel wiwerod a llygod mawr) ac mae raid i'r gwenwyn gael ei osod y tu mewn i focs abwyd sydd wedi ei gynllunio'n arbennig sydd yn eithrio anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu.

Tudalen 20

Mae rhai anifeiliaid, pan maent yn bodoli mewn rhifoedd niferus, yn gallu achosi cryn ddifrod – fe'u gelwir hwy yn **BLA**.

Mae rhai ohonynt yn dda i'w bwyta ac felly yn ffynhonnell ddefnyddiol o fwyd.

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 21

Gwnewch y plant i enwi pob pla a ddangosir – soniwch neu grybwyll y difrod y maent yn gallu ei wneud. Hwyrach nad yw plant ac athrawon yn gwerthfawrogi y bod ceirw yn bla ac efallai y byddai'n angenrheidiol egluro'n ofalus y difrod sylweddol y gallant ei achosi trwy:-

- (i) leihau amrywiaeth o rywogaeth planhigion coedwigol
- (ii) ddifrod i goed sydd yn tyfu
- (iii) ddifrod i gnydau amaethyddol

Tudalen 22

Llygod mawr yw un or pla mwyaf cyffredin – maent ym mhobman yng nghefn gwlad, trefydd a gerddi ple bynnag mae ffynhonnell o fwyd. Gall ei niferoedd gynyddu'n sydyn – nid yn unig eu bod yn achosi difrod; maent yn gludwyr clefydau heintus a all gael eu lledaenu.

Dengys y dudalen yma llygod mawr wedi ei darganfod mewn cnydau grawn a thomenydd ysbwriel. Maent yn aml yn difrodi cynnyrch bwyd mewn storfa ac yn ei wneud yn anaddas i'w fwyta gan bobl.

Maent hefyd yn bwyta llawer o wyau a chywion adar sydd yn eithaf prin.

Tudalen 23

Mae saethu yn bwysig i ychwanegu incwm i lawer ystad – mae'r arian yna yn gymorth i dalu am waith cadwraeth ac annog ystadau i gynnal cynefinoedd o safon uchel – pyllau neu goedwigoedd yn lle troi y tir trosodd i gnydau amaethyddol.

Mae Ymddiriedolaeth Cadwrieuthol y Gêm yn datgan y byddai y rhan fwyaf o elw gwaith cadwraeth yn cael ei gollu pe bai dim rheoli ar anifeiliaid ysglyfaethus.

Tudalen 24

Mae magu gêm yn rhan bwysig o saethu heddiw.

Chwith uchod – cae magu gêm – yn arferol yn cael ei newid i dir newydd pob blwyddyn.

De gwaelod – adar ieuanc yn cael cysgod, cynnesrwydd a bwyd. Yn yr oed yma y maent yn 'hapus' yng nghwmni agos a niferus eu gilydd.

De uchod – cywion mwy oedranus allan yn dysgu sut i fwyta ac edrych ar ôl eu hunain; maent angen ac yn cael mwy o le i symud o gwmpas. Mae'r fferantod ieuanc wedyn yn cael eu danfon i'r coed a byddant yno yn cynefino cyn cael eu gollwng i'r gwyllt.

Chwith gwaelod – lar ori yn eistedd ar wyau fferant ac yn gweithredu fel rhiant feithrin – dull sydd heddiw weithiau yn cael ei ddefnyddio – felly y byddai adar gêm i gyd yn cael eu magu yn y gorffennol – roedd yn ddull yn gwastraffu llawer iawn o amser ac yr oedd angen cyflogi mwy o giperiaid. Byddai sicrhau rhifau niferus o ieir addas bron yn amhosibl y dyddiau yma. Heddiw mae mwyafrif or wyau yn cael ei deor mewn deoryddion enfawr.

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 25

Mae dyddiau saethu yn cael eu trefnu'n fanwl – gofal yn nhermau

- 1) y tir i'w ddefnyddio;
 - 2) pobl fedrus ar gael, pob un yn gwybod ei waith neilltuol;
 - 3) rhif penodol o bobl sydd yn saethu ac yn glynu i gytundebau a wnaethpwyd o flaen llaw.
- Pob diwrnod i gael cytundeb o faint fydd y cyfrif adar i'w saethu.

Tudalen 26

Ar ystadau saethu does dim yn cael ei wastraffu – mae'r adar gêm sydd wedi ei saethu yn cael ei gwerthu a'i bwyta gan y cyhoedd.

Mae yn fwyd iachusol (cyfrif isel o 'golesterol')

Gan ei fod yn uniongyrchol oddiwrth y cipar mae cig or gwyllt yn fwyd blasus a chymharol rad.

Tudalen 27

Mae'r cipar yn gyson yn yr awyr agored a rhan bwysig o'i waith i'w bod yn sylwgar a chraff. Mae yn gyfundrefn rhybudd cynnar o unrhyw drosedd yng nghefn gwlad ac yn arferol mae ganddo berthynas agos gyda'r Heddlu lleol.

Tudalen 28

Y cipar heddiw – un a'i yn gweithio ar ben ei hun neu yn aelod o dîm yr ystad. Yn arferol mae yn ddyn teuluol gyda thŷ gan ei gyflogwr. Yn aml mae ei ddiwrnod gwaith o fore hyd y cyfnos ac ar rai adegau or flwyddyn ymhell ir nos.

Ar y chwith mae'r cipar yn ei ddillad cuddliw, mwy na thebyg ar doriad gwawr, ar drywydd carw.

Ar y dde mae'r cipar yn ei ddillad pob dydd, yn aml gyda'i Land Rover, ei gi ar gwn yn erlid a rheoli pla.

Yn y gorffennol roedd y mwyafrif o wybodaeth a chreffft oedd yn angenrheidiol i ddod yn gipar da yn cael ei ddysgu fel bachgen ieuanc, yn datblygu o 'fachgen' i is-gipar, i gipar curo, i ben gipar neu ar rai ystadau o dad i fab.

Ar gael yn awr mae amryw o gyrsiau mewn colegau Addysg Pellach sydd yn arbenigo mewn cadw gêm a rheoli bywyd gwyllt. Mae'r cyrsiau yma, ynghyd a chydweithio gyda ciperiaid i gael profiad gwaith yn rhoi sylfaen gadarn a chymwysterau adnabyddiedig cyn i gipar ieuanc sydd wedi cael ei hyfforddi'n drylwyr ymgeisio am ei swydd gyntaf.

Gamekeeper CD - Nodiadau Addysgu

Tudalen 29

Mae manylion pellach ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth Elusenol Cymdeithas Genedlaethol y Ciperiaid

Gwefan:- www.gamekeeperstrust.org.uk

neu o:-

Brian Hayes,
NGO Educational Trust
P.O.Box 3360,
Stourbridge
DY7 5YG

E-bostiwch: info@gamekeeperstrust.org.uk

Yn y rhan ddigwyddiadau o'r wefan byddwch hefyd yn dod o hyd i fanylion o ddyddiau ysgol ystad a gwledig, lle fydd yr Ymddiriedolaeth Addysgol y NGO yn cynnal sioe deithiol. Mae'r digwyddiadau hyn yn annog ysgolion i ymweld ag ystad leol a gall y plant ddysgu am bob math o agwedd o fywyd cefn gwlad, cwrdd â chiperiaid go iawn a gweld y gwaith sy'n mynd i mewn i redeg ystad fodern mewn modd cynaliadwy.